OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 969 (Cy. 206)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Medi 2022* |
| *Yn dod i rym* | *24 Medi 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Medi 2022.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 24 Medi 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Medi 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**<u>YR ATODLEN</u>**

**Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).

2. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon).

3. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).